

Sialens Ddarllen yr Haf 2023

Ar eich marciau, Darllenwch!

Cyflwynwyd gan Yr Asiantaeth Ddarllen
a'i darparu mewn partneriaeth â llyfrgelloedd.

Allwch chi neilltuo peth amser yr haf hwn?

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr **13 i 24 oed**
a all, yn ddelfrydol, wirfoddoli i helpu yn ein llyfrgell
o fis Gorffennaf i ddechrau mis Medi.

Fel gwirfoddolwr ar gyfer Sialens Ddarllen yr Haf, byddwch yn:

- Helpu gyda'n gweithgareddau llyfrgell
- Helpu plant i ddewis a dod o hyd i lyfrau i gymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf eleni.
- Gwrando arnynt yn siarad am eu llyfrau

Trwy wirfoddoli i helpu gyda Sialens Ddarllen yr Haf, byddwch yn cael:

- Profiad gwaith gwerthfawr
- Cyfle i roi cyfraniad cadarnhaol i'ch cymunedau
- Cyfle i wneud ffrindiau newydd a dysgu sgiliau newydd
- Achrediad gan gyrff cymeradwy (sy'n gysylltiedig â chynlluniau lleol fel Wobr Dug Caeredin, y Wobr Cyflawniad Ieuenctid neu Wobr y Celfyddydau)
- Tystysgrif i gydnabod yr amser a'r ymdrech a roddwyd.

Gall fod angen help arnom ar y penwythnos neu gyda'r hwyr, felly rhowch wybod i ni ba amser o'r dydd rydych yn rhydd i'n helpu. Gan fod y cyfle gwirfoddoli hwn yn ymwneud â gweithio gyda phlant, bydd angen caniatâd rhieni ar gyfer pob gwirfoddolwr dan 18 oed.

**Os oes gennych ddiddordeb, yna gofynnwch wrth gownter y llyfrgell
i gael rhagor o wybodaeth ac am ffurflen gais.**